# Her Hanner Tymor Prifysgol y Plant!

## Ymchwiliwch!

Mae Calan Gaeaf bron yma! Bob blwyddyn, mae llawer o bobl yn cerfio pwmpenni i nodi'r gwyliau, ond a ydych chi'n gwybod pam? Ymchwiliwch ac ysgrifennwch am darddiad cerfio pwmpenni ac yna dyluniwch eich pwmpen eich hun.

## Byddwch yn fedrus!

Efallai eich bod yn gwybod bod sgiliau yn bwysig iawn ym Mhrifysgol y Plant! Mae gan ein Ffrindiau a'n partner dysgu dilys, What's your Strength?® adnoddau gwych a fydd yn helpu i feithrin eich sgiliau! Cwblhewch ddau o'u gweithgareddau. https://tinyurl.com/mrycerub

## Byddwch yn chwilfrydig!

Mae mis Hydref yn Fis Hanes Pobl Dduon. Ymunwch â'r cyflwynydd teledu plant, Nigel Clarke wrth iddo ddathlu bywydau chwech o bobl anhygoel a'u cyfraniad i hanes Prydain. Yna, ysgrifennwch ddeg peth rydych chi wedi'u dysgu o'r fideos. https://tinyurl.com/mrxr3vzf

## Pethau i'w gwneud yr hanner tymor hwn!

Mae pob gweithgaredd yn werth 1 credyd. I gael cod stamp ar gyfer *Prifysgol y Plant Ar-lein*, e-bostiwch **contactus@childrensuniversity.co.uk** gyda thystiolaeth - gallai hyn fod yn ffotograff, fideo, taflen waith, neu'n ddarn ysgrifenedig am yr hyn a wnaethoch! Mae pob gweithgaredd yn gofyn am oruchwyliaeth gan oedolion. Disgwylir i'r oedolyn goruchwylio reoli'r holl risg o ran gweithgaredd.

## Byddwch yn grefftus!

Nid oes angen prynu addurniadau newydd pan allwch ailgylchu a thrawsnewid poteli plastig, blychau cardbord a beth bynnag sydd gennych o amgylch eich tŷ, yn addurniadau Calan Gaeaf arswydus – gadewch i'ch dychymyg redeg yn wyllt!

## Byddwch yn egnïol!

As Wrth iddi nosi'n gynt yn yr hydref, mae'n demtasiwn swatio'n glyd ar y soffa! Er mwyn eich helpu i gadw'n heini, ewch ar daith gerdded ym myd natur a gwnewch ludwaith hydrefol o dirwedd gan ddefnyddio dail lliw gwahanol a deunyddiau naturiol a geir y tu allan.